Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Blant |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Cymdeithasol 1, 2 a 3 (Gwasanaeth Mabwysiadu) |
| **GRADD Y SWYDD:** | Gradd 10 – Newydd Gymhwyso<br>Gradd 11 – SW2<br>Gradd 12 - Yn amodol ar 3 blynedd o brofiad ôl-gymhwyso |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol |

**DIBEN Y SWYDD:**
Recriwtio, asesu darpar fabwysiadwyr gan ddefnyddio'r templed Adroddiad Darpar Fabwysiadwr, dadansoddi gwybodaeth gymhleth a gasglwyd fel rhan o'r asesiad a chyflwyno eich argymhelliad i'r Panel Mabwysiadu. Ymgymryd ag asesiadau mabwysiadwr nad ydynt o asiantaeth a datblygu'r rhain i'r llys er mwyn dod i gasgliad arnynt. Rheoli llwyth achosion amrywiol a fydd yn cynnwys gweithio gyda chydweithwyr lle mae mabwysiadu yn gynllun posibl i blentyn, dod o hyd i deuluoedd a pharu plant â mabwysiadwyr a chyfrannu at adroddiadau llys i gynorthwyo ceisiadau am fabwysiadu. Cynorthwyo'r rhai y mae mabwysiadu'n effeithio arnynt â chymorth ï gael mynediad i wybodaeth am eu gorffennol.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cyfrannu tuag at recriwtio, asesu, hyfforddi a chynorthwyo Mabwysiadwyr gan gynnwys ymateb i ymholiadau ac ymgyrchoedd recriwtio drwy gynnal cyfweliadau cychwynnol â darpar fabwysiadwyr. Asesu, hyfforddi a chynorthwyo darpar fabwysiadwyr a chyflwyno adroddiadau i'r panel mabwysiadu.
- Ymgymryd â rôl gefnogol i blant a theuluoedd lle mae mabwysiadu wedi'i gynnig fel un o'r opsiynau sefydlogrwydd ar gyfer plentyn. Lle mae mabwysiadu wedyn yn cael ei gynnig fel y prif gynllun, ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i ddod o hyd i deuluoedd, gan gynnwys nodi mabwysiadwyr addas, hwyluso'r broses baru a chynorthwyo lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.
- Darparu cymorth i'r rhai yr effeithir arnynt gan fabwysiadu gan gynnwys cwnsela cofnod geni/gwasanaethau cyfryngol i bobl sydd wedi'u mabwysiadu.
- Nodi angen heb ei ddiwallu a thynnu sylw rheolwyr yn yr Is-Adran at hyn a chynorthwyo wrth gasglu data yn ôl yr angen.
- Cymryd cyfrifoldeb, gyda'r Rheolwr Tîm, i nodi anghenion datblygiad proffesiynol personol ac anghenion hyfforddiant a sicrhau eu bod yn cael eu

diwallu lle y bo'n bosibl. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n gymesur â gradd y swydd a chymryd rhan yn yr adolygiad rheolaidd o gynnwys y disgrifiad swydd.
- Gweithio yn unol â gwerthoedd craidd y Cyngor Bwrdeistref Sirol, egwyddorion Deddf Plant 1989 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor Bwrdeistref Sirol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Gradd 11 – Fel yr uchod ynghyd â**
- Bod yn gyfrifol am fwy o achosion gofal a chymorth ynghyd â mwy o gymhlethdod gan gynnwys mwy o gymorth i achosion ag unrhyw achosion llys cysylltiedig, gyda'r cyfle i gydweithio.
- Mentora a chefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol yn eu hymarfer.

**Gradd 12 – Fel yr uchod ynghyd â**
- Arwain cydweithio â Gweithwyr Cymdeithasol llai profiadol mewn achosion cymhleth.
- Rhoi cyngor a chanllawiau i weithwyr cymdeithasol llai profiadol ac aelodau eraill o'r tîm a chynorthwyo eu datblygiad.
- Goruchwylio Myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol.
- Ymgymryd â gwaith mabwysiadu sensitif, acíwt a chymhleth sy'n cynnwys asesu, goruchwylio a chynorthwyo darpar ofalwyr sy'n berthnasau a gofalwyr sy'n berthnasau presennol a fydd yn gofyn am fynd i'r llys a gweithredu ar ran y gwasanaeth rhanbarthol mewn lleoliadau ffurfiol eraill;
- Cynnal asesiadau helaeth rheolaidd o addasrwydd ymgeiswyr i fabwysiadu a chyflwyno'r asesiadau hyn i baneli mabwysiadu ffurfiol.
- Cymryd rhan mewn penderfyniadau ac argymhellion paru ar gyfer y panel mabwysiadu a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn yr asiantaeth.
- Gweithio gyda darpar fabwysiadwyr, gofalwyr maeth a theuluoedd plant â phrofiad o fod mewn gofal/plant wedi'u mabwysiadu. Bydd hyn yn cynnwys:
  - Darparu asesiadau cymhleth, lleoliadau a'r gwaith parhaus o gyflwyno cynlluniau cymorth cadarn cynhwysfawr i blant sy'n cael eu lleoli i'w mabwysiadu.
  - Achosion mabwysiadu sy'n cael eu herio.
  - Gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal.
  - Gwaith gofal a chymorth cymhleth arall fel y bo'n ofynnol.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch.

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm Asesu Diogelu Plant.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

## GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL (LLE Y BO'N BERTHNASOL)

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Cymdeithasol 1 a 3 (Gwasanaeth Mabwysiadu)

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Mae cymhwyster gwaith cymdeithasol cydnabyddedig, e.e., C.Q.S.W., C.S.S., Dip, S.W., Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol a chofrestru gydag un o'r cyrff rheoleiddio priodol.<br>• 3 blynedd o brofiad ôl-gymhwyso. | Ydy<br><br>Ar gyfer GC3 yn unig | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gwybodaeth am ddeddfwriaeth bresennol Gwasanaethau Cymdeithasol a dealltwriaeth o hyn, yn enwedig Deddf Plant 1989, Deddf Mabwysiadu 1976, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a pherthnasedd hyn i Wasanaethau Plant.<br>• O leiaf tair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso ym maes Gwasanaethau Plant, yn enwedig gweithio gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal.<br>• Profiad o ymgymryd â PARs neu asesiadau cymhleth eraill a'u cyflwyno.<br>• Profiad o amgyffred gwybodaeth gymhleth, dadansoddi a chrynhoi'r wybodaeth honno i safon uchel.<br>• Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc, eu rhieni biolegol a'u gofalwyr maeth.<br>• Profiad o reoli llwyth gwaith a goruchwylio gofalwyr maeth a threfnu amser.<br>• Gwybodaeth am waith a gweithdrefnau Maethu, gwaith Plant sy'n Derbyn Gofal, Achosion Gofal, systemau gwybodaeth a materion sicrhau ansawdd. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| | • Profiad uniongyrchol o achosion cymhleth.<br>• Profiad uniongyrchol o ysgrifennu asesiadau cymhleth sy'n llywio ceisiadau | Ar gyfer GC3 yn unig | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | llys/cynlluniau gofal ar gyfer plant a phobl ifanc.<br>• Profiad uniongyrchol o waith llys. | Ar gyfer GC3 yn unig<br>Ar gyfer GC3 yn unig | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill, gan ganolbwyntio ar anghenion y gwasanaeth.<br>• Gallu dangos sgiliau trefnu da.<br>• Sgiliau TG da.<br>• Gallu meddwl yn glir<br>• Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol mewn ffurf ysgrifenedig ac ar lafar gyda'r gallu i wel materion yn eu cyd-destun ehangaf.<br>• Gallu datblygu arfer i safon briodol.<br>• Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol.<br>• Gallu dangos uniondeb personol a phroffesiynol gydag ymrwymiad i ddatblygiad personol.<br>• Gallu gweithio'n ddiogel.<br>• Gallu gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm gan rannu cyfrifoldebau a chyfrannu brwdfrydedd ac ymroddiad.<br>• Gallu ffurfio a datblygu perthnasoedd gwaith gyda phlant, pobl ifanc, eu rhieni a darpar ofalwyr maeth.<br>• Gallu gwneud penderfyniadau’n briodol.<br>• Sgiliau ardderchog ym maes ymchwilio ac asesu.<br>• Gallu datrys problemau wrth weithio dan bwysau.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |